
BIP Caerdydd a’r Fro

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2021 - 2022

fersiwn gryno. I ddarllen yr adroddiad llawn ewch i (insert link)



Artist: Rachel Hanna

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro

Cardiff and Vale University Health Board


# Cyflwyniad:

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop.



Rydym yn cyflogi tua **16,000 o staff.**

Rydym yn gwario tua **£1.7 biliwn** bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a lles ar draws 11 safle gwahanol i boblogaeth o oddeutu **472,400** o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro.



Rydym yn Fwrdd Iechyd Addysgu sydd â chysylltiadau agos â sector y brifysgol, a gyda'n gilydd rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, wrth weithio ar ymchwil a fydd, gobeithio, yn datgloi'r atebion i iacháu afiechydon heddiw.

Mae ein gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:

- **Gwasanaethau sylfaenol ac yn y gymuned:** Practisau meddygon teulu, deintyddion, fferylliaeth ac optometreg a llu o wasanaethau therapi eraill dan arweiniad y gymuned, drwy gyfrwng timau iechyd cymunedol.
- **Gwasanaethau acíwt drwy ein dau brif Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty Plant:** gan ddarparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Iechyd y cyhoedd:** rydym yn cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro gydag ystod o gyngor ac arweiniad ar iechyd y cyhoedd a mesurau iechyd ataliol.
- **Gofal trydyddol:** rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau i boblogaeth ehangach Cymru, a'r DU yn aml, gan gynnig triniaeth arbenigol a gwasanaethu cymhleth fel niwrolawdriniaeth a gwasanaethau cardiaidd.

Ein cenhadaeth yw "Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach", a'n gweledigaeth yw y dylai siawns unigolyn o gael byw bywyd iach fod yr un peth ble bynnag y mae'n byw neu bwy bynnag ydyw, ac i greu system gofal iechyd gynaliadwy gyda mwy o bwyslais ar:

- Gofal yn agosach at gartref
- Atal salwch
- Gwell iechyd a lles
- Grymuso pobl a darparu canlyniadau sy'n bwysig iddynt
- Gwell ansawdd bywyd

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, y trydydd sector a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ehangach i gyflawni cynlluniau i wella iechyd a lles ein cymunedau lleol.

# Ymateb ac Adferiad ar ôl COVID:



Parhaodd y pandemig i gael effaith sylweddol a pharhaus ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2021/22.

Bu'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio ei fodel gweithredu COVID-19 a ddarparodd y fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cyflym a'r hyblygrwydd i gydlynu gwasanaethau ar gyfer grwpiau cleifion COVID a'r rhai nad oedd ganddynt COVID.

Wrth wraidd y model gweithredu, y mae'r angen i barhau i fod yn "barod ar gyfer COVID" a gwnaethom sicrhau bod y dull hwn yn cydberthyn yn agos â Chynllun Rheoli COVID GIG Cymru.

Ym mhob cam o'r pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gyflym i ailgynllunio'r ffordd y darperir gwasanaethau yn glinigol, aildrefnu ac ail-lunio'r ôl-troed, gan greu'r capasiti sydd ei angen i gynnal mynediad at wasanaethau hanfodol a darparu gwasanaethau mwy rheolaidd pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Mae ein llwyddiant wrth sefydlu gwasanaethau profi ar ddechrau'r pandemig wedi parhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy bartneriaeth agos â'n dau awdurdod lleol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Roedd cyflwyno'r Rhaglen Imiwneiddio Torfol ar draws Caerdydd a'r Fro yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy waith partneriaeth cydweithredol, sydd â ffocws clir.

Drwy gydol y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal mynediad at wasanaethau hanfodol a brys, gan gynnwys llawfeddygaeth frys, gofal llygaid, triniaethau canser, gofal heb ei drefnu ac iechyd meddwl.

- Mae gweithgarwch cleifion allanol newydd ar 90% o'r lefelau cyn COVID
- Mae derbyniadau dewisol i gleifion mewnol ac achosion dydd ar 80% o'r lefelau cyn COVID
- Mae gweithgarwch radioleg wedi adfer i dros 100% o'r lefelau cyn COVID
- Mae gweithgarwch endosgopi ar dros 120% o'r lefelau cyn COVID

Mae'r cyfnod adfer ac ail-ddylunio wedi rhoi'r cyfle i ni drawsnewid gofal cleifion, dysgu o adborth cleifion a staff dros y flwyddyn ddiwethaf a sefydlu gwelliannau gweithredol i wella mynediad.

Nod ein IMPT drafft uchelgeisiol ar gyfer 2022-2025 yw cyflymu ein taith o drawsnewid gwasanaethau a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am driniaeth wedi'i chynllunio.



# Pobl:



Roedd adegau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf lle roedd darparu digon o staff i gynnal lefelau diogel o ofal yn heriol iawn. Fodd bynnag, roedd yr ymdrech gan y rhai sy'n gweithio yn y meysydd hyn ac yn eu rheoli yn sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i gadw ein cleifion yn ddiogel, gan gynnal diogelwch ein staff ar yr un pryd.

Cyflawnwyd hyn drwy ganfod a hyfforddi staff i ymgymryd â rolau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) newydd, rôl Kickstarter newydd o'r enw "Gweithiwr Cymorth Amgylchedd y Cleifion", y Rhaglen i Nyrsys Tramor, Safonau Nyrsys a Bydwragedd y Dyfodol, Rhaglen Diwtoriaeth, Hyfforddiant Sgiliau a Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn angerddol am ofalu am les ei aelodau staff.

Ar ôl cais llwyddiannus i'r Elusen Iechyd ym mis Tachwedd 2020 sefydlwyd y Tîm Ymyrraeth Iechyd (HIT) ym mis Mawrth 2021. Mae'r tîm dwy flynedd yn cynnwys pedwar gweithiwr proffesiynol a dynnwyd at ei gilydd i hyrwyddo ac integreiddio ymagwedd ragweithiol at les yn y sefydliad.


Mae'r Grŵp Lles Strategol a sefydlwyd yn 2020 ac sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant, wedi gweithio'n dda i dynnu sylw at ble mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio ei sylw wrth ymateb i anghenion lles ein staff.

Dyma rai enghreifftiau o gamau gweithredu sydd ar y gweill gan y grŵp, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd:

- Cyflwyno cefnogaeth ychwanegol gan gymheiriaid mewn meysydd peilot, e.e. rowndiau Schwartz
- Gwaith ar y cyd â'r Coleg Adfer a Lles i wella Cymorth gan Gymheiriaid
- Gwella capasiti y Gwasanaeth Lles Gweithwyr ar gyfer staff
- Buddsoddi mewn gorsafoedd dŵr ychwanegol ar draws safleoedd ysbytai
- Datblygu a chefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth well
- Adnewyddu ystafelloedd staff a gwella cyfleusterau meithrinfa'r staff
- Safleoedd lles ar gyfer staff sydd mewn perygl o gael eu gorlethu, neu sy'n profi symptomau o'r fath
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth, addysg a datblygiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Eleni hefyd gwelwyd datblygiad a lansiad 'Cynllun Pobl a Diwylliant' y Bwrdd Iechyd, gan nodi'r themâu a'r camau gweithredu cyffredinol y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf, gan ganolbwyntio'r glir ar wella lles, cynhwysiant, gallu ac ymgysylltiad ein gweithlu.

**Cynllun Pobl a Diwylliant - dolen fideo Rachel Gidman**




Mae'r Cynllun yn deillio o saith thema sy'n seiliedig ar y themâu a nodir yn Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'i nod yw sicrhau gweithlu sy'n hapus, yn iach ac yn cael ei gefnogi fel y gall, yn ei dro, gefnogi lles y bobl yn eu gofal.

Mae'r Grŵp Buddion Staff yn archwilio ac yn cydlynu gostyngiadau a buddion a gynigir gan sefydliadau allanol i weithwyr y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp yn sicrhau ac yn cytuno ar y 'bargeinion gorau' i staff ac yn rhoi gwybod am eu gwaith i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) presennol, Rhoi Sylw i Gynhwysiant 2020-2024, nifer o amcanion cyflawni allweddol ac mae'n dangos ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol a'r Gymraeg ym mhrosesau busnes y Bwrdd Iechyd.

## Ansawdd a Diogelwch:

Yn ystod y pandemig rydym wedi datblygu ein Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad pum mlynedd gyda'n staff rheng flaen, cleifion, gofalwyr, perthnasau a rheoleiddwyr allanol. Mae ein ffocws ar ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf yn ymestyn ar draws pob lleoliad lle darperir gofal iechyd.

Mae hyn yn cynnwys ein cyfrifoldeb fel comisiynydd gwasanaethau gan ystod eang o ddarparwyr i gael y sicrwydd angenrheidiol yn ei le lle mae gofal yn cael ei ddarparu gan eraill ar gyfer ein poblogaeth.

Fel sefydliad gofal iechyd integredig, rhaid i'n ffocws ar ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf ymestyn ar draws pob lleoliad lle darperir gofal iechyd wrth i ni geisio bod yn un o'r sefydliadau mwyaf diogel yn y GIG.



Mae gennym wyth o hwyluswyr allweddol yn ein Fframwaith QSE diwygiedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

Ymhlith y rhain mae:

- Diwylliant Diogelwch
- Arweinyddiaeth ar gyfer QSE
- Profiad y Claf a Chynnwys Cleifion
- Dysgu a chyfathrebu Diogelwch Cleifion
- Ymgysylltu â Staff a'u Cynnwys
- Data a Mewnwelediad
- Proffesiynoldeb QSE
- Llywodraethu Ansawdd

Rhaid i'r hyn sy'n wirioneddol bwysig i ofalwyr ein cleifion a phobl yn ein cymunedau fod yn ganolog i'n penderfyniadau, fel y gallwn ddefnyddio ein hamser, ein sgiliau a'n hadnoddau eraill yn fwy doeth.

## Cynaliadwyedd:

Ym mis Ionawr 2020, datganodd y Bwrdd Iechyd argyfwng hinsawdd, ac ymrwymo i ddyblu ein hymdrechion i leihau ein hôl troed carbon.

Lluniwyd ein cynllun gweithredu cynaliadwyedd cyntaf a oedd yn nodi'r camau y byddem yn eu cymryd i leihau ein defnydd o garbon yn sylweddol. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Ddatgarboneiddio Llywodraeth Cymru, gyda'r ymrwymiad i gyrraedd carbon sero-net erbyn 2030, gwnaethom adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a chymeradwyo'r cynllun diwygiedig yng nghyfarfod ein Bwrdd ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r cynllun diweddaraf hwn yn defnyddio Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru fel sylfaen ac mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r Cynllun Gweithredu cyntaf er mwyn herio'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ei ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd ymhellach.

Rydym bellach yn adrodd ar gynnydd yn flynyddol gyda'n cynllun lleihau carbon, ac mae grŵp goruchwylio ar lefel Weithredol yn cael ei sefydlu i sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni ar amser.

## Trosolwg ariannol:

Am ddatganiadau ariannol a chyfrifon blynyddol, gweler tudalennau 176-272 yr adroddiad llawn.

